

# Coedwigaeth yng Nghymru

Diwydiant cynaliadwy ar gyfer yr 21ain ganrif



## Confor

Promoting forestry and wood  
Hyrwyddo coedwigaeth a choed

Sector proffesiynol sy'n cyflenwi buddion niferus

Caiff coedwigoedd yng Nghymru eu rheoli yn ôl Safon Coedwigaeth y DU. Mae hon yn diffinio rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy ac mae'n sail ar gyfer strategaeth Coetiroedd i Gymru:

- Ymateb i newid hinsawdd
- Coetiroedd ar gyfer pobl
- Sector cystadleuol, integredig
- Ansawdd amgylcheddol

Mae'r rhan fwyaf o goedwigoedd Cymru yn cael eu rheoli gan **Goedwigwyr Siartredig** sy'n gweithio yn unol â chod ymddygiad proffesiynol sy'n mynnu cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol cadarn.



### 306,000

hectar o goetir yng Nghymru.

### 100,000


hectar: targed tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer plannu o'r newydd.

### 18,000

hectar o goed conifer cynhyrchiol wedi'u colli yng Nghymru ers 2001.

### 31,800

hectar: y diffyg o rannu plannu o'r newydd ers 2010.



### Pam fod creu coetiroedd mor bell y tu ôl i'r targed?


Mae plannu coed yn aml yn cael ei weld mewn ffordd negyddol. Mae asiantaethau'r llywodraeth, cyrff anllywodraethol a'r gymdeithas yn gwrthwynebu newid defnydd tir, sy'n arwain at dybiaeth yn erbyn creu coetir a cholli buddion coedwigaeth fodern, gymysg ar gyfer pobl a'r amgylchedd.

### Beth allwn ni ei wneud amdano?

- Derbyn newid defnydd tir ar raddfa sylweddol
- Llywodraeth sy'n barod i hybu coedwigaeth
- Ymgyrch genedlaethol ar gyfer coedwigaeth a phren yng Nghymru
- Rheoleiddiwr sy'n barod i wneud penderfyniadau anodd a chydbwysu risg.

### Sut bydd Cymru yn elwa?

Mae coedwigaeth fodern yn gweithredu yn unol â safon gynaliadwy sy'n arwain y byd, gan adael sectorau eraill ymhell y tu ôl, ac mae'n cynhyrchu adnodd naturiol, amlbwrpas, y gellid ei adnewyddu'n ddi-ben-draw, gan greu lleoedd bywiog ar gyfer hamdden a bioamrywiaeth yn y broses.



### Forest cover as % of land area

Cymru heddiw	14 %
Targed Cymru erbyn 2030	19 %
Ffrainc	31 %
Sbaen	37 %
Ewrop (heb gynnwys y DU)	39 %
Sweden	68 %

## Coedwigaeth

## Pren


### Yr Amgylchedd

Yn ogystal â chynhyrchu pren, mae'n rhaid i goedwigoedd gael eu cynllunio i liniaru llifogydd a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd pwysig.

Mae'n rhaid i bob coedwig fasnachol gynnwys rhannau o ofod agored a choetir llydanddail cynhenid.

Mae adeiladu gyda phren o Gymru yn cloi carbonam sawl degawd, wrth i goed newydd dyfu a dal a storio mwy o garbon.

Ôl-troed carbon yr holl ddeunyddiau a gafodd eu dosbarthu i brosiectau adeiladu yn y DU yn 2010




### Yr Economi

Dim ond **10%** o arwynebedd tir Cymru sy'n cael ei reoli ar gyfer cynnyrch pren. Mae potensial enfawr i gynyddu swyddi a gwerth ychwanegol gros drwy blannu o'r newydd.

Mae ffermwyr sy'n plannu coed ar ran o'u tir yn gallu diogelu eu dyfodol ariannol a gwneud busnes y fferm yn fwy dichonadwy.

Fesul gweithiwr, mae gwerth ychwanegol gros y sector coedwigaeth yng Nghymru bron i ddwbl unrhyw ddefnydd tir arall fel amaeth.



Mae prinder plannu o'r newydd yn golygu y bydd cynhyrchu pren yn syrthio o 2030 hyd 2050.



Byddai'r **18,000** hectar o goedwig conifer a gollwyd yn cefnogi **8** melin goed newydd.

### Y Gymdeithas

**64%**

o oedolion yng Nghymru yn ymweld â choetiroedd bob blwyddyn.

**52%**

o holl ymweliadau awyr agored yn cynnwys amser a dreuliyd mewn coetiroedd.



**170,000** o bobl ymweld â Choed Llandegla yn 2016

**Atal llifogydd**

**60x** o gyfraddau ymdreiddiad dŵr mewn tir pori a blannwyd gyda choed ym Mhont Bren yng nghanolbarth Cymru.




**18,000** hectar o goedwig conifer a gollwyd wedi cefnogi **2,600** o swyddi.



Gallai prinder pren wneud cynnyrch pren yn rhy ddrud ar gyfer nifer o gartrefi.

# Mae buddion niferus coedwigaeth yn cyfrannu at bob rhan o Lywodraeth Cymru





# 80

o'r pren rydym yn ei ddefnyddio.



Gydag adnodd coedwig a ehangwyd, gallai Cymru fod ar flaen y gad o ran datblygu technolegau arloesol yn seiliedig ar ffibr pren megis

## bioplastigau nanoffibrau bio-olewon



# £7.5 billion

Roedd cyfanswm gwerth mewnforion cynnyrch pren y DU yn 2016

**“Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i alluogi plannu mwy o goetiroedd cynhyrchiol er mwyn galluogi Cymru i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen cydweithredu, cydweithio a chyfranogiad gan ystod o bartion sydd â diddordeb er mwyn creu coetiroedd ar y raddfa hon.”**

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad Estyn Allan.

### Y DU yw'r ail fewnforiwr net mwyaf o gynnyrch pren yn y byd



Rydym yn credu bod coedwigaeth a choetiroedd yn ganolog i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 **“i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.”**

#### Confor: hybu coedwigaeth a phren

Mae Confor ([www.confor.org.uk](http://www.confor.org.uk)) yn sefydliad aelodaeth dielw ar gyfer coedwigaeth gynaliadwy a busnesau sy'n defnyddio pren. Mae Confor yn cynrychioli'r gadwyn gyfan ar gyfer cyflenwi coedwigaeth a phren ac mae'n canolbwyntio ar faterion strategol sy'n hanfodol i lwyddiant a dyfodol cynaliadwy'r sector.

Gwybodaeth bellach: Eleanor Harris, Confor Ymchwilydd Polisi, [eleanor@confor.org.uk](mailto:eleanor@confor.org.uk)

#### Cyfeiriadau

Colli 18,000 hectar: dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-16.

Gwerth ychwanegol gros cymharol coedwigaeth a diwydiannau eraill: cyflwyniad gan Jonathan Price, Llywodraeth Cymru.

Ôl-troed carbon deunyddiau adeiladu: dyfynnwyd gan y Tîm Buddsoddi Cyfalaf, dadansoddiad gan FII Ltd.

Plannu o'r newydd a mewnforion pren: Forestry Statistics



# Confor

Promoting forestry and wood  
Hyrwyddo coedwigaeth a choed